

## Telerau ac Amodau

### Grant Cymorth Gofal Plant (Cyfleustodau) A a B

Wrth wneud cais am y Grant, rydych yn cadarnhau eich bod yn deall gofynion, rhwymedigaethau, egwyddorion a thelerau ac amodau'r Grant fel y nodir isod ac y byddwch yn cydymffurfio â nhw.

#### Diben

Rhoi arian i leoliadau gofal plant i'w cefnogi i barhau i weithredu drwy gydol heriau'r coronafeirws, os nad oes unrhyw arian cyhoeddus arall yn cael ei roi i dalu'r un costau.

Cefnogi teuluoedd drwy ddileu'r angen i ddarparwyr godi ffioedd ar rieni pan nad yw gwasanaeth yn cael ei ddarparu, tra'n cynnal incwm i'r darparwr gofal plant. (Grant A)

Gellir defnyddio'r arian hwn hefyd i dalu am gostau uwch gan gynnwys Costau Rhent a Chyfleustodau. (Grant B)

#### Gellir ôl-ddyddio'r arian hwn i 1 Ebrill 2021.

Mae 2 elfen i'r Grant (A a B)

**Grant A** - Grant Hunanynysu (Cau Lleoliad yn Gyfan Gwbl neu'n Rhannol)

**Grant B** - Costau Uwch, Costau Cyfleustodau, a Chostau Rhent a Chyfleustodau (Ile cânt eu cyfuno)

Nid ystyrir bod dyfarnu grant yn y flwyddyn ariannol hon (Ebrill 21 - Mawrth 2022) yn golygu unrhyw sicrwydd y dyfernir Grant ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

#### Gofynion Cymhwysedd

Mae'r grant ar gael i **fusnesau gofal plant, sydd wedi'u cofrestru gydag AGC**, y mae'r coronafeirws wedi effeithio arnynt.

- Rhoddir y taliad i Ddarparwyr Gofal Plant sy'n gymwys, erbyn 31 Mawrth 2022, neu hyd nes y bydd yr holl arian wedi'i ddefnyddio.
- Mae'r grant hwn ar gael i bob lleoliad gofal plant sydd ar agor ac yn weithredol, neu sy'n gallu dangos y bydd yn ailagor os yw ar gau ar hyn o bryd.
- Mae'n rhaid i ddarparwyr gadw at y wybodaeth ddiweddaraf am y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau sy'n ymwneud â gofal plant a gweithredu unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r safonau a'r rheoliadau hynny.
- Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod gan bob aelod o staff y profiad, y cymwysterau a'r sgiliau priodol a ddisgwyliid gan unigolyn sy'n rhoi gofal plant diogel ac o safon.
- Rhaid bod gan ddarparwyr Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus/Cyflogwyr dilys ar waith bob amser ac am y swm priodol trwy gyfeirio at nifer y plant yn eu gofal
- Mae darparwyr yn gyfrifol am y wybodaeth a roddir i Gyngor Caerdydd, ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y wybodaeth honno'n gywir ac yn gyfredol

- **Mae'n rhaid bod darparwyr wedi'u cofrestru** gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

### **Egwyddorion Sylfaenol**

- Mae'r grant hwn ar gael i wrthbwyso costau cyfleustodau (nwy, dŵr trydan) hyd at y terfynau wedi'u capio, yn seiliedig ar naill ai bil amcangyfrifedig blwyddyn lawn, neu 120% o'r costau blynyddol os yw'n seiliedig ar gostau Ch1 a Ch2 yn unig.
- Er mai grant cyfleustodau yn bennaf yw, gall lleoliadau y codir costau rhent a chyfleustodau cyfunol arnynt (fel lleoliadau ar safleoedd ysgol) ddefnyddio'r costau hyn i gyfrifo'r swm a hawliwyd.
- Gall gwarchodwyr plant wneud cais am hyd at **£1500** ar gyfer costau cyfleustodau. Bydd angen tystiolaeth o filiau o ddechrau'r flwyddyn hyd yma, neu Chwarter 1 a Chwarter 2.
- Gall lleoliadau mewn Eiddo Rhent, wedi'u cofrestru i gynnig 19 o leoedd neu lai ac sy'n talu am filiau Rhent a chyfleustodau gyda'i gilydd wneud cais am hyd at **£5,000**
- Gall lleoliadau sydd wedi'u cofrestru i gynnig 20 o leoedd neu fwy ac sy'n talu Biliau Rhent a Chyfleustodau wneud cais am hyd at **£7500**
- Gall lleoliadau Gofal Dydd Llawn wneud cais am grant Cyfleustodau i dalu am hyd at 120% o filiau cyfleustodau blwyddyn lawn hyd at **£7500**
- Ni all darparwr dderbyn arian gan **ddwy** ffynhonnell arian cyhoeddus mewn perthynas â'r un plentyn neu'r un costau am yr un cyfnod (DS: gall darparwyr wneud cais am y Grant Hunanynysu am hyd at 3 chyfnod cau rhwng 1 Ebrill 2021 a 31.03.2022)
- Gall yr Awdurdod Lleol roi arian i ddarparwyr am leoedd **wedi'u cadw** nad ydynt yn cael eu defnyddio dros dro (e.e. hunanynysu) lle mae ffioedd rhieni wedi'u hepgor gan y darparwr
- Bydd pob ymgeisydd yn cael ei ystyried ar sail unigol a thelir y grant yn ôl disgrisiwn llwyr yr Awdurdod Lleol o fewn y meini prawf a nodir.
- Byddwn yn cydnabod derbyn eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith.
- Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynir yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a'r gwiriadau gwybodaeth a wneir o ffynonellau data busnes eraill. Os yw unrhyw ddata yn anghyflawn neu'n anghywir neu os yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn annigonol, **ni fyddwn** yn gallu prosesu'r cais a chaiff ei wrthod.
- Dylai ymgeiswyr nodi y gall fod angen ad-dalu'r grant yn llawn neu'n rhannol i'r Awdurdod Lleol os daw tystiolaeth i law nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys.

## Grant A - Grant Hunanynysu (Cau Lleoliad yn Gyfan Gwbl neu'n Rhannol)

Er mwyn cefnogi lleoliadau unigol y bu angen iddynt gau'n gyfan gwbl neu'n rhannol oherwydd y Coronafeirws.

- Telir arian grant ar ôl i'r Lleoliad/Ardal y bu rhaid ei gau/chau gael ei ailagor/hailagor.
- **Bydd angen tystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)/Iechyd yr Amgylchedd (IA)/Profi, Orlhain, Diogelu (POD) yn cynghori'r lleoliad i beidio â pharhau i ddarparu ei wasanaethau tra bod aelod o'r cartref yn ynysu (gwarchodwyr plant). NI fydd arian ar gael os nad yw ICC/IA NEU POD wedi cynghori'r lleoliad i gau. Ar gyfer lleoliadau, bydd angen tystiolaeth i ddangos pam y bu'n rhaid i'r lleoliad gau e.e. roedd y ddau aelod o staff yn hunanynysu ar yr un pryd.**
- Bydd rhaid cyflwyno copi o'r Hysbysiad i AGC o gau ac ailagor ynghyd â'ch Cais am Grant.
- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 1 Mawrth 2022.

Mae'r swm y byddwch yn gymwys i'w hawlio yn seiliedig ar nifer y lleoedd gofal plant **wedi'u cadw nad oeddynt ar gael** oherwydd cyfarwyddyd i Hunanynysu. **NI** ddylai'r lleoedd nad oeddent ar gael gael eu hariannu gan y Cynnig Gofal Plant neu arian cyhoeddus arall, fel Dechrau'n Deg.

Os oes rhaid i ystafell gyda 10 o blant y cadwyd lleoedd iddynt hunanynysu, ond bod 3 o'r lleoedd eisoes yn cael eu hariannu gan y Cynnig Gofal Plant, yna bydd y grant yn talu am 7 o'r lleoedd

Enghraifft: -

Mae incwm o'r grant hwn yn **GYFRANIAD** tuag at gostau rhedeg cyffredinol

Mae'r grant yn gyfraniad tuag at incwm a gollwyd o **ffioedd preifat YN UNIG**. Ni ellir hawlio os yw'r lleoliad yn codi tâl ar rieni am y lleoedd hyn.

Telir £4.50 fesul awr.

- £45 fesul diwrnod llawn (gofal dydd llawn/gofal sesiynol gofal dydd llawn/gofal yn ystod y gwyliau) – hyd at 10 awr
- £22.50 fesul hanner diwrnod (gofal cofleidiol mewn gofal dydd llawn; sesiwn hanner diwrnod mewn gofal dydd llawn) – hyd at 5 awr
- £13.50 fesul lle gofal sesiynol (cylch chwarae, Cylch, clwb ar ôl yr ysgol) - hyd at 3 awr
- Os oes rhaid i Feithrinfa Ddydd / Gofal Sesiynol gau ystafell sydd fel arfer â 10 lle llawn-amser, ond bod y rhain yn cael eu meddiannu gan rai lleoedd llawn-amser a rhai lleoedd rhan-amser a gadwyd, dylid categoreiddio'r rhain yn unol â hynny.
- Gall darparwyr wneud cais am hyd at **3** chfnod cau rhwng 14 Medi 2020 hyd nes y bydd yr holl arian wedi'i ddefnyddio neu 31 Mawrth 2021, pa un bynnag sydd gynharaf

**D.S. Bydd y grant yn cynnwys lleoedd wedi'u cadw a gollir oherwydd cau'r lleoliad yn gyfan gwbl/rhannol yn unig a bydd angen rhoi tystiolaeth o'r lleoedd a gadwyd i'r Awdurdod Lleol**

**B. Grant Biliau Cyfleustodau**

Gellir defnyddio'r grant hwn i dalu am gostau uwch sy'n gysylltiedig â'r Coronafeirws, e.e. costau gwresogi ychwanegol sy'n deillio o'r angen i gynyddu'r awyru

- Gall lleoliadau wneud cais am grant, yn dibynnu ar gofrestrriad ag AGC, fel y nodir isod:

• Math y lleoliad	Swm (£)
Gwarchodwr plant hyd at	1500
Sesiynol*, wedi cofrestru i gynnig 19 o leoedd neu lai, hyd at	5000
Sesiynol*, wedi cofrestru i gynnig 20 o leoedd neu fwy, hyd at	7500
Gofal Dydd Llawn**	7500

\* Brecwast, ar ôl yr ysgol, grŵp chwarae, a crèche

\*\* Meithrinfa gofal dydd llawn, gofal yn ystod y gwyliau

- **Gwarchodwr Plant, at ddibenion y grant hwn, byddwn yn darparu cyllid grant yn seiliedig ar 35% o gyfanswm costau'r biliau cyfleustodau (Trydan, Nwy a Dwr) sef cyfran y costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol I warchod plant (hyd at yr uchafswm o £1,500).**
- **Ystyrir bod y taliadau'n ennill cyflog ac felly maent i'w cynnwys yn eich Ffurflen Dreth**
- **Mae'n rhaid i chi ymateb drwy e-bost i gadarnhau eich bod yn derbyn Grant B, o fewn 14 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y Cynnig. Wrth dderbyn y taliad grant, rydych yn cadarnhau nad ydych wedi cael arian cyhoeddus, ac nad ydych wedi gwneud cais llwyddiannus am unrhyw arian cyhoeddus ychwanegol, sy'n talu'r un costau. Os na dderbynnir y taliad o fewn y cyfnod hwn, caiff y cynnig ei dynnu'n ôl.**

Cofiwch y gall gymryd hyd at 6 wythnos i brosesu'r rhain ac iddynt ymddangos yn eich cyfrif.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm ar yr e-bost canlynol:

[cymorthbusnesgofalplant@caerdydd.gov.uk](mailto:cymorthbusnesgofalplant@caerdydd.gov.uk).

**Eich rhwymedigaethau cyffredinol i ni**

Ar adeg gwneud cais ac ar ôl hynny, mae angen i chi roi gwybodaeth wir a chywir i gefnogi eich cais am grant.

Mae'n rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith trwy gysylltu â [cymorthbusnesgofalplant@caerdydd.gov.uk](mailto:cymorthbusnesgofalplant@caerdydd.gov.uk) dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Os yw taliad wedi'i wneud i chi mewn camgymeriad, a/neu os oes unrhyw amgylchiadau a allai fod wedi effeithio ar y penderfyniad i gymeradwyo eich cais am grant pe bai'r Cyngor yn gwybod amdanynt ar adeg eich cais.

- II. Os oes gennych unrhyw amheuon nad yw'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eich cais yn hollol gyflawn, gwir neu gywir, gan gynnwys (ymhlith eraill);
  - Eich awdurdod i wneud y cais ar ran y busnes;
  - Eich ystyriaeth o'r holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau eich bod yn gymwys.
- III. Nid ydych wedi datgelu pob ffaith neu amgylchiad perthnasol i ni fel y gallwn ni gael dealltwriaeth wir a chywir er mwyn prosesu eich cais yn gywir.

## Diogelu Data

Mae'r wybodaeth yn eich cais wedi'i defnyddio i brosesu'ch cais am Grant Cymorth Gofal Plant (Cyfleustodau).

- Caiff gwybodaeth bersonol a roddir trwy eich cais ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd fel y rheolwr data at ddibenion penodol Cynllun Grantiau Busnes Llywodraeth Cymru;
- Prosesir data personol yn unol â Pholisi Preifatrwydd Cyngor Caerdydd ac ni chaiff ei rannu ag unrhyw sefydliad trydydd parti heb eich cydsyniad penodol oni bai bod angen i ni wneud hynny neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith;
- Mae gan Gyngor Caerdydd ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus ac mae'n cymryd rhan mewn gwahanol ymarferion atal twyll gyda nifer o bartneriaid ac asiantaethau allanol. Gall eich data gael ei rannu/defnyddio at ddiben atal a chanfod twyll lle yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol, yn briodol ac yn gyfreithlon gwneud hynny.
- Ceir rhagor o wybodaeth am rwymedigaethau'r Cyngor o ran Diogelu Data ar dudalen Polisi Preifatrwydd y Cyngor.  
<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

## Twyll

- Mae gan Gyngor Caerdydd ddyletswydd i ddiogelu arian cyhoeddus ac mae wedi cyhoeddi ymagwedd dim goddefgarwch tuag at dwyll;
- Bydd y Cyngor yn gweithredu'n gadarn ac yn bendant pan fo amheuaeth am dwyll. Bydd hyn yn cynnwys ymchwilio i amheuon, cysylltu â Heddlu De Cymru, rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon a chymryd camau i adennill unrhyw golledion ac i gosbi troseddwyd

- Bydd unrhyw arian sy'n cael ei dalu y canfyddir yn ddiweddarach ei fod yn anghymwys yn destun camau adennill yn y dyfodol..

## Datganiad

- Rwyf wedi darllen telerau ac egwyddorion y grant, y gofynion cymhwysedd, fy nghyfrifoldebau a'm rhwymedigaethau ac yn eu derbyn.
- Rwy'n cadarnhau nad yw'r busnes wedi cael arian gan, ac nad yw wedi gwneud cais llwyddiannus am, unrhyw Arian Cyhoeddus sy'n talu'r un costau.
- Rwy'n cydsynio i brosesu data ac i archwiliadau llyfr agored o gofnodion at ddiben archwilio/adolygu ac rwy'n derbyn y bydd unrhyw daliadau a nodir yn daliadau anghymwys yn destun camau adennill yn y dyfodol.
- Wrth wneud cais am yr arian, rydym ni/rydw i wedi bodloni'r meini prawf cymhwysedd/telerau'r grant a'r rhwymedigaethau cyffredinol i'r Cyngor a byddem/byddaf yn parhau i'w bodloni.
- Rydw i wedi llenwi'r ffurflen gais a'r datganiadau cysylltiedig yn gywir ac yn onest.
- Rwyf wedi darllen a deall Datganiadau Diogelu Data a Thwyll y Grant Cymorth Gofal Plant (Cyfleustodau).
- Deallaf y bydd rhaid ad-dalu'r grant yn llawn os daw tystiolaeth i'r amlwg nad wyf yn gymwys ar gyfer y Grant Cymorth Gofal Plant (Cyfleustodau).

Llofnod.....

Enw mewn llythrennau breision.....

Enw'r lleoliad.....

Dyddiad .....

Enw'r Lleoliad*	
Cyfeiriad E-bost y Gohebydd*	
Rhif Ffôn*	
Enw'r Banc*	
Cangen*	
Cod Didoli*	
Rhif Cyfrif*	
Rhif Cyfrif y Banc*	

Meysydd gofynnol\*

## Atodiad 1

\*Ticiwch y rhestr fel y nodir ar y ffurflen gais

### Gwybodaeth Gyffredinol i'w hamgáu gyda'ch Cais am Grant

<b>Rwyf wedi amgáu copïau dilys o'r dogfennau isod:</b>
Dogfen Llywodraethu Cyfreithiol (Cyfansoddiad, Tystysgrif Ymgorffori, ayyb)
Tystysgrif Gofrestru AGC (neu dystiolaeth o gychwyn y broses gofrestru)
Llif arian 12 mis Ebrill 2021 – Mawrth 2022
<b>Rwyf wedi cadw:</b> Copi o'r cais hwn ar gyfer fy nghofnodion

## Atodiad 2: Grant A

### Gwybodaeth ychwanegol i'w chyflwyno ar gyfer Grant A

<b>Llythyr neu e-bost gan lechyd Cyhoeddus Cymru/lechyd yr Amgylchedd, Profi, Olrhain Diogelu yn nodi cyngor i gau'r lleoliad</b>
Copi o hysbysiad cau ac ailagor a anfonwyd i AGC
Sgan/copi o'r gofrestr lleoedd a gadwyd wedi'i golygu yn cynnwys manylion y lleoedd llawn-amser a rhan-amser a gadwyd yn y lleoliad yr hawlir amdano, gyda'r manylion cywir a diweddaraf
Cadarnhad na chodwyd tâl ar rieni drwy gydol y cyfnod cau a bod yr holl rieni yr effeithiwyd arnynt wedi derbyn copi o'r llythyr templed a roddwyd gan yr Awdurdod Lleol

## **Atodiad 3 Grant B**

### **Gwybodaeth ychwanegol i'w chyflwyno ar gyfer Grant B**

Cyflwynwch dystiolaeth o'ch biliau cyfleustodau, cyfriflen banc, bil cyfleustodau (Cyflenwr)